# Polisi Buddsoddi Cynaliadwy

Nod Prifysgol Bangor yw bod yn lle ysbrydoledig i fyw, gweithio ac astudio, hyrwyddo llesiant cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol, cyfiawnder, cywirdeb a thwf cynaliadwy mewn cymdeithas. Rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod ein cyllid yn cael ei fuddsoddi'n gyfrifol. Mae'r polisi hwn yn sicrhau bod y brifysgol yn gwneud y gorau o'n hadenillion ar fuddsoddiadau heb gyfaddawdu ein hymrwymiad i gynaliadwyedd a llesiant cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol.

Ein hamcanion yw:

- Gwneud y gorau o adenillion ar fuddsoddiadau (cyfalaf ac incwm); cyfyngu risg i lefel dderbyniol a chynnal portffolio o fuddsoddiad amrywiol sy'n adlewyrchu'r angen i ariannu datblygiadau yn y dyfodol
- Cynnal gwerth ein cyllid, ar ôl ystyried chwyddiant (o leiaf) dros y tymor hir
- Darparu llif incwm i'r brifysgol ac i'r cronfeydd gwaddol

**Ein Dull**

Rydym yn deall bod ein gweithgareddau buddsoddi o ddiddordeb i'n myfyrwyr a rhanddeiliaid eraill. Wrth wneud penderfyniadau buddsoddi, mae Prifysgol Bangor yn ymrwymo i wneud hynny mewn modd cyfrifol a chynaliadwy, gan gydnabod ein cyfrifoldebau amgylcheddol, cymdeithasol, diwylliannol a llywodraethol. Ni fyddwn yn gwneud penderfyniadau ar ba fuddsoddiadau unigol i'w gwneud ond byddwn yn gweithio gyda rheolwr buddsoddi i wneud y penderfyniadau hynny ar sail yr egwyddorion llywodraethu amgylcheddol, cymdeithasol a chorfforaethol (ESG) a nodir gan y brifysgol trwy'r polisi hwn a rhestr o feysydd busnes lle byddwn yn sgrinio buddsoddiadau i'w heithrio.

Yr egwyddorion ESG yr ydym yn disgwyl eu cymhwyso at ein buddsoddiadau yw y dylai pob endid posib y gellid ei gynnwys yn ein portffolio ddangos ymrwymiad mawr i'r canlynol:

- Eu heffaith ar yr amgylchedd, gan gynnwys polisïau clir ynglŷn â newid hinsawdd, llygredd, dŵr a rheoli gwastraff.
- Eu hymrwymiad i hyrwyddo effaith gadarnhaol ar eu staff eu hunain a'u cwsmeriaid trwy eu polisïau pobl ac annog amrywiaeth.
- Sut maent yn gweithredu, gan gynnwys llywodraethu, atebolrwydd i gyfranddalwyr a sicrhau nad yw eu gweithrediadau yn niweidio hawliau dynol nac yn torri cyfreithiau a rheoliadau, gan gynnwys cyfraith ryngwladol

Penodwyd UBS AG fel ein rheolwr portffolio a gallant sicrhau bod yr egwyddorion hyn yn cyd-fynd â'u dulliau eu hunain o asesu perfformiad ESG buddsoddiadau posib.

Rydym yn disgwyl i'n rheolwr gymhwyso cyfuniad o sgriniau negyddol i sicrhau bod cwmnïau a all fod yn niweidiol i gymdeithas neu'r amgylchedd yn cael eu heithrio. Nid yw Prifysgol Bangor yn buddsoddi'n uniongyrchol mewn busnesau sy'n cynhyrchu unrhyw refeniw sylweddol o'r canlynol:

- Arfau
- Alcohol
- Gamblo
- Tybaco
- Adloniant oedolion
- Tanwydd ffosil echdynol

**Ymgysylltiad y Myfyrwyr a'r Staff gyda'r Polisi Buddsoddi Cynaliadwy:** Mae Prifysgol Bangor yn ymrwymo i gynnwys cynrychiolaeth myfyrwyr ar ei Phwyllgor Cyllid a'r Pwyllgor Buddsoddi, sydd ill dau'n cynnwys swyddog sabothol Undeb y Myfyrwyr. Mae'r Pwyllgor Cyllid yn adrodd i Gyngor y Brifysgol sydd hefyd yn cynnwys aelod a enwebir gan y staff ynghyd â Llywydd Undeb y Myfyrwyr. Mae'r brifysgol yn sicrhau bod cyfleoedd i ymgysylltu â'r Polisi Buddsoddi Cynaliadwy trwy godi ymwybyddiaeth a phryderon am fuddsoddiadau moesegol gyda'r myfyrwyr a'r staff trwy gyfathrebu yn y Bwletin Myfyrwyr a'r Bwletin Staff ac anfonir adborth i'r Pwyllgor Buddsoddi. Bydd y Pwyllgor Buddsoddi wedyn yn ystyried ceisiadau gan gymuned y brifysgol i wneud newidiadau i'n polisi.

Caiff y Polisi Buddsoddi Cynaliadwy ei adolygu'n flynyddol gan y Pwyllgor Buddsoddi, a gymeradwyir gan y Pwyllgor Cyllid a Strategaeth, a'i adrodd i Gyngor y Brifysgol. Caiff ei rannu hefyd â phoblogaeth ehangach y brifysgol ac mae ar gael i'r cyhoedd ar wefan y brifysgol.

Bob blwyddyn ar ein gwefan, bydd y brifysgol yn cyhoeddi rhestr o gwmnïau a chronfeydd eraill y buddsoddir ynddynt.

**Cymeradwywyd gan:**Y Pwyllgor Buddsoddi.
**Llofnodwyd gan:**Cadeirydd y Pwyllgor Buddsoddi

(Emily Rees)

***Polisi Buddsoddi Cynaliadwy, Dyddiad cyhoeddi: 1 Awst 2025 Yn ddilys tan: 31 Gorffennaf 2026***